# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD AML-LEOLIAD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA A THRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD MERCHER 3 EBRILL 2024 AM 1PM

YN BRESENNOL:

Cynghorwyr:

J. Pritchard (Aelod Cabinet dros Ffyniant, Adfywio a Newid yn yr Hinsawdd), N. George (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol, Eiddo a Phriffyrdd), P. Leonard (Aelod Cabinet dros Gynllunio a Diogelu'r Cyhoedd), C. Morgan (Aelod Cabinet dros Wastraff, Hamdden a Mannau Gwyrdd), E. Stenner (Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad), S. Cook (Aelod Cabinet dros Dai), C. Andrews (Aelod Cabinet Addysg) ac E. Forehead (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol).

Ynghyd â:

D. Street (Dirprwy Brif Weithredwr), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol) ac M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Amgylchedd)

Hefyd yn bresennol:

R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), K. Cole (Prif Swyddog Addysg), A. West (Rheolwr Gwasanaeth Llunio Lleoedd a Chymunedau Dysgu Cynaliadwy), S. Richards (Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg a Rheolwr Trawsnewid), A. Dallimore (Rheolwr Gwasanaethau Adfywio), H. Munro (Rheolwr Rhaglen Llunio Lleoedd Caerffili), F. Wilkins (Rheolwr Gwasanaethau Tai), C. Davies (Rheolwr Tai'r Sector Preifat), I. Raymond (Prif Swyddog Prosiectau) , M. Lloyd (Pennaeth Isadeiledd), L. Lane (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a Dirprwy Swyddog Monitro)

### TREFNIADAU RECORDIO A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd y Dirprwy Arweinydd y rhai oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, ac y byddai recordiad ar gael i'w weld drwy wefan y Cyngor, ac eithrio ar gyfer trafodaethau yn ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig. Cliciwch yma i weld.

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd S. Morgan (Arweinydd y Cyngor) ac C. Harrhy (Prif Weithredwr) ac G. Jenkins (Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Cymdeithasol).

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Corfforaethol ac Addysg, R. Edmunds, fuddiant personol yn Eitem 11 ar yr Agenda - Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y Deyrnas

Unedig - Trosglwyddiadau a Chymeradwyo Prosiectau gan ei fod yn llywodraethwr yng Ngholeg y Cymoedd.

**3. COFNODION – DYDD MERCHER 21 CHWEFROR 2024**

PENDERFYNWYD CYMERADWYO COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 21 CHWEFROR 2024 FEL COFNOD CYWIR.

**4. COFNODION – DYDD MERCHER 27 CHWEFROR 2024**

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2024 fel cofnod cywir.

**5. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET – I'W NODI**

Darparwyd i'r Cabinet Flaenraglen Waith y Cabinet, a oedd yn manylu ar yr adroddiadau a drefnwyd tan 26 Mehefin 2024.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd nodi'r Flaenraglen Waith. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

**6. CYNLLUN BUSNES CYFRIF REFENIW TAI 2024/25**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn i'r Cabinet ystyried a chael barn ar Gynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 2024/25.

Nododd y Cabinet fod Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai yn ofyniad blynyddol gan Lywodraeth Cymru fel rhan o gyflwyno cais am grant y Lwfans Atgyweiriadau Mawr yn flynyddol.

Nododd y Cabinet ymhellach fod yr adroddiad wedi'i ystyried gan y Pwyllgor Craffu Tai ac Adfywio ar 26 Mawrth 2024 a nododd ddiweddariad llafar Aelodau'r Pwyllgor Craffu gan y Swyddog.

Yn dilyn sylwadau a wnaed ynghylch ffigurau chwyddiant yn yr adroddiad, dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Tai wrth y Cabinet ei bod yn anodd rhoi cynrychiolaeth gywir oherwydd bod cymaint o amrywiaeth o ran gwahanol agweddau. Cynghorwyd y Cabinet ymhellach fod hon yn ddogfen weithredol a byw, felly, gellir ei newid i adlewyrchu cyfraddau chwyddiant o bryd i'w gilydd.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, a thrwy Microsoft Forms, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

> PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddogion bod Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 2024/25 yn cael ei ystyried a chymeradwyo ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

**7. POLISI ADNEWYDDU AC ADDASU TAI'R SECTOR PREIFAT**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn am farn y Cabinet a chytundeb ynghylch Polisi Adnewyddu ac Addasu Tai'r Sector Preifat 2024 ac adlinio cyllidebau cyfalaf presennol Tai'r Sector Preifat yn unol â hynny i helpu cyflawni'r Polisi o 2024/25.

Nodwyd bod y Pwyllgor Craffu Tai a'r Amgylchedd wedi ystyried yr adroddiad hwn ar 26 Mawrth 2024 ac wedi nodi'r diweddariad llafar ar y sylwadau gan Aelodau'r Pwyllgor Craffu gan y Swyddog.

Cyfeiriwyd at baragraff 3.4 o adroddiad y Swyddogion a gofynnwyd am eglurhad ynghylch pam na fabwysiadwyd cais ffurfiol Gweinidog Llywodraeth Cymru a sut y byddai hyn yn effeithio ar y trigolion a gofynnwyd am eglurhad pellach ar sut y bydd gwasanaethau mewnol yr Asiantaeth yn targedu'r aelwydydd mwyaf agored i niwed. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Tai wrth y Cabinet mai'r rheswm dros beidio â mabwysiadu'r cais gan Lywodraeth Cymru oedd y byddai symud i ffwrdd o brawf modd yn cael effaith negyddol sylweddol ar y sefydliad o safbwynt adnoddau cyfalaf a refeniw a byddai hefyd yn effeithio'n sylweddol ar gapasiti'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Pe bai'r prawf modd yn cael ei ddileu, byddai'n achosi mewnlifiad sylweddol mewn ceisiadau ac, yn y pen draw, byddai'n effeithio'n sylweddol mewn ffordd negyddol ar yr ymgeiswyr mwyaf agored i niwed, sydd leiaf abl i dalu.

Dywedodd Rheolwr Tai y Sector Preifat wrth y Cabinet y byddai'r Gwasanaeth Asiantaeth yn siop un stop ar gyfer unrhyw un sydd angen cymorth a byddai'n darparu arbenigedd technegol a chymorth proffesiynol a gweinyddol. Byddai hyn yn sicrhau bod yr holl ffurflenni'n cael eu llenwi'n gywir, a bydd yr unigolyn yn cael swyddogion cyswllt a thechnegol penodedig i sicrhau bod yr holl waith sydd ei angen yn cael ei wneud yn iawn yn ei eiddo.

Gan ymateb i ymholiad a godwyd, dywedodd y Swyddog wrth y Cabinet fod pob awdurdod lleol yn cynnig cymorth grant mewn perthynas ag addasiadau a bod Caerffili yn bwriadu parhau â hwnnw mewn perthynas â gwelliannau i'r cartref a materion cynnal a chadw. Mae awdurdodau lleol eraill eisoes wedi dileu cymorth grant ac yn dibynnu ar fenthyciadau, ar wahân i grantiau a ariannwyd yn allanol.

Gofynnodd y Cabinet am ragor o wybodaeth ar sut y bydd y Cyngor yn bodloni'r flaenoriaeth newydd yn y polisi i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi. Dywedodd y Swyddog fod yna nifer o ffyrdd y gellir cyflawni hyn. Er enghraifft, mae gan y Cyngor bwerau gorfodi statudol i sicrhau bod landlordiaid preifat yn bodloni'r ddeddfwriaeth. Mae'r Cyngor hefyd yn gwneud y mwyaf o gyllid allanol, gan gynnwys er mwyn cynorthwyo cymorth grantiau ac mae'n gallu cyfeirio pobl at 'Gynllun Nyth' Llywodraeth Cymru. Mae staff ar gael hefyd i roi cyngor ar effeithlonrwydd ynni.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, a thrwy Microsoft Forms a phleidlais lafar, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion:

1. Nodi sylwadau'r Pwyllgor Craffu Tai a'r Amgylchedd ar 26 Mawrth 2024.

2. Nodi'r newid yn y dull o ddarparu cymorth ariannol o bolisi sy'n seiliedig ar grantiau yn bennaf i bolisi mwy cynaliadwy ar sail benthyciad ad-daladwy mewn perthynas â chynnal a chadw eiddo ac adfywio.

3. Cymeradwyo Polisi Adnewyddu ac Addasu Tai'r Sector Preifat 2024.

4. Parhau i ddarparu addasiadau canolig drwy gyfrwng grantiau cyfleusterau i bobl anabl gorfodol (DFG) sy'n destun prawf modd yn unol â statud, gan nodi nad yw'r argymhelliad hwn yn cydymffurfio â chais ffurfiol Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru, Julie James, ar 10.03.2021 mewn perthynas â chymeradwyo addasiadau canolig.

5. Bod y polisi arfaethedig yn cael ei gyflwyno ar unwaith, sef bod cynhyrchion sy'n dod i ben yn peidio â chael eu cynnig o 31 Mawrth 2024 gyda chynhyrchion ariannol newydd yn cael eu cyflwyno o 1 Mehefin 2024 er mwyn caniatáu ar

gyfer cymeradwyo cynllunio gweithredu a hyfforddiant.

6. Bod ymgeiswyr sydd ag ymholiadau gweithredol am gynnyrch sydd wedi dod i ben yn cael cyfle â therfyn amser i symud ceisiadau ymlaen ar gyfer cymeradwyaeth ffurfiol.

7. Cymeradwyo cyflwyno'r gwaith o dargedu'r Gwasanaeth Asiantaeth Mewnol at aelwydydd sy'n agored i niwed a diwygiadau i ffioedd yr Asiantaeth.

8. Adlinio cyllideb gyfalaf flynyddol Tai’r Sector Preifat o £2,167,000 ac arian llithriant cysylltiedig o £6,916,280 (yn ôl adroddiad monitro cyfnod 9 – 2023/24) i gyflawni'r Polisi arfaethedig mewn cytundeb â'r Swyddog Adran 151 a'r Aelod Cabinet dros Dai. Cymeradwyo'r arian llithriad ac incwm asiantaethau am gyfnod o 5 mlynedd er mwyn caniatáu gweithredu'n effeithiol y Polisi arfaethedig.

9. Cymeradwyo dyraniad o £322,019 o arian llithriad Tai y Sector Preifat y cyfeiriwyd ato yn 3.8 i helpu cyflawni cynllun Adfywio wedi'i Dargedu Bryn Carno.

## 8. RHAGLEN BAND B CYMUNEDAU DYSGU CYNALIADWY – ADRODDIAD GWRTHWYNEBIADAU STATUDOL: YSGOL Y LAWNT AC YSGOL GYNRADD RHYMNI UCHAF.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet mewn perthynas â'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy mewn perthynas â'r cynnig i adleoli Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf drwy greu adeiladau ysgol cynaliadwy gyda chyfleusterau a rennir.

Nododd y Cabinet, yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet, fod Hysbysiad Statudol ar gyfer y cynnig yn ymwneud ag Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf wedi’i gyhoeddi, ac roedd y cyfnod gwrthwynebu ffurfiol rhwng 8 Ionawr 2024 a 5 Chwefror 2024.

Mewn ymateb i ymholiad, dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Llunio Lleoedd a Chymunedau Dysgu Cynaliadwy wrth y Cabinet fod rhestr benodedig o ymgyngoreion o fewn Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, a oedd yn ymwybodol o'r Hysbysiad Statudol. Arddangoswyd yr hysbysiad o fewn yr ysgol, ar giât yr ysgol ac o fewn y cyntedd cyhoeddus. Roedd yr ysgol hefyd yn rhybuddio rhieni a disgyblion drwy ei mecanweithiau mewnol ei hun gan fod llais y disgyblion yn bwysig iawn. Roedd yr Awdurdod hefyd wedi arddangos yr Hysbysiad Statudol ar ei dudalennau cyfryngau cymdeithasol ac ar wefan y Cyngor.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, a thrwy Microsoft Forms a phleidlais lafar, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion, y dylid:-

1. Ystyried yr wybodaeth sydd yn yr Adroddiad Gwrthwynebiadau

2. Symud ymlaen i'r cam Cais Cynllunio a chymeradwyo achosion busnes dilynol gan Lywodraeth Cymru.

## 9. COD TREFNIADAETH YSGOLION 2018 – ADRODDIAD GWRTHWYNEBIADAU STATUDOL: CYNNIG I GAU YSGOL FABANOD CWM GLAS.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet mewn perthynas â'r cynnig ynghylch cau Ysgol Fabanod Cwm Glas, yn weithredol o 20 Gorffennaf

2024. Gofynnwyd i'r Cabinet ystyried yr wybodaeth yn yr adroddiad diweddaru a gofynnwyd am gymeradwyaeth y Cabinet i fwrw ymlaen er mwyn gweithredu'n llawn.

Yn dilyn ystyriaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, a thrwy Microsoft Forms, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion, y dylid:

1. Ystyried yr wybodaeth sydd yn yr adroddiad diweddaru hwn.

2. Cymeradwyo symud ymlaen i weithredu'n llawn.

## 10. BWRDD ÔL-16, UN RHYW A LLEOEDD DROS BEN – ARGYMHELLION PELLACH I'R CABINET.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar ddau gynnig cysylltiedig a wnaed gan y Bwrdd Ôl-16, Un Rhyw a Lleoedd Dros Ben.

Gofynnwyd am gytundeb y Cabinet i gynnal ymgynghoriad ffurfiol ar symud o ddarpariaeth un rhyw i ysgol gydaddysgol yng Nghwm Rhymni Uchaf a lleoli disgyblion dalgylch Ysgol Gyfun Lewis i Ferched ar safle Ysgol Lewis Pengam. Derbyniodd y Cabinet wybodaeth hefyd am gynnig i fynd i'r afael â rhai materion hirsefydlog ynghylch lleoedd dros ben ar draws darpariaeth ysgolion uwchradd yn ardal Cwm Rhymni Uchaf.

Nodwyd bod yr adroddiad wedi ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 20 Mawrth 2024 a nodwyd eu sylwadau.

Gofynnodd y Cabinet am ragor o wybodaeth ynghylch a fyddai barn disgyblion ac athrawon yn cael ei hystyried a beth yw barn penaethiaid yr ysgolion a fydd yn cael eu heffeithio. Sicrhaodd Rheolwr y Gwasanaeth Llunio Lleoedd a Chymunedau Dysgu Cynaliadwy a'r Prif Swyddog Addysg y Cabinet fod llais y disgyblion yn bwysig iawn, a bydd yr ymgynghoriad yn ystyried barn pob disgybl ysgol gynradd ac uwchradd. Cynigir bod disgyblion ym mlynyddoedd 5 a 6 o fewn yr ysgolion cynradd yr effeithir arnyn nhw'n cymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Mae'r adborth gan benaethiaid yr ysgolion uwchradd a'r ysgolion bwydo i gyd yn unfrydol o blaid yr egwyddorion yn yr ymgynghoriad ac yn ystyried ei bod yn hen bryd gwneud y newid. Roedd y Prif Swyddog Addysg yn dymuno cofnodi ei gwerthfawrogiad i'r staff sydd wedi gallu cynnal y trafodaethau hyn gan roi eu hagendâu personol a'u diddordebau personol o'r neilltu. Maen nhw i gyd wir yn credu bod hyn er lles gorau'r disgyblion a'u haddysg a'u lles yn y dyfodol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, a thrwy Microsoft Forms a phleidlais, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion, y dylid:

1. Nodi cefnogaeth unfrydol y Bwrdd Ôl-16, Un Rhyw a Lleoedd Dros Ben (y Bwrdd) i'r cynigion a nodir yn 5.7(1), 5.7(2) a 5.18(1) o'r adroddiad hwn.

2. Cymeradwyo symud ymlaen i ymgynghori fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

## 11. CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN LLYWODRAETH Y DU – TROSGLWYDDO A CHYMERADWYO PROSIECTAU.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am gyflawni Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig.

Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi adborth i'r Cabinet ar effeithiolrwydd Bwrdd Rhaglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin o ran darparu arweinyddiaeth weithredol i gyflawni'r Cynllun Buddsoddi Lleol o dan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y Deyrnas Unedig fel rhan o raglen Ffyniant Bro y Deyrnas Unedig gyfan.

Gofynnwyd am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer 2 drosglwyddiad cyllid arfaethedig mewn perthynas â'r ymyriadau canlynol oherwydd eu gwerth sylweddol:

- W03 Glanach a Gwyrddach – £995,000
- W24 Hwb Ôl-osod, Coleg y Cymoedd – £1,000,000

Gofynnodd y Cabinet am eglurhad ynghylch pa brosiectau fyddai'n cael eu hybu o dan y categori glanach a gwyrddach. Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Amgylchedd y byddai hyn yn cynnwys prosiectau na fyddai'r Cyngor, fel arfer, yn eu cyflawni fel rhan o'i drefn cynnal a chadw, gan fod angen ychwaneged yn y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Enghreifftiau o ychwanegedd o'r fath fyddai gwella'r 6 phrif borth i'r Fwrdeistref Sirol lle nad yw'r tyfiant yn cael ei dorri'n ôl yn rheolaidd, gwelliannau i gylchfannau a gwelliannau i ganol trefi.

O ran y cynigion ar gyfer yr Hwb Ôl-osod, croesawodd y Cabinet y prosiect cyffrous hwn a gofynnodd am eglurhad ynghylch faint o amser y byddai'n ei gymryd i'w sefydlu a faint o hybiau ôl-osod eraill sydd ledled y wlad. Dywedodd y Swyddog wrth y Cabinet mai dim ond un hwb ôl-osod arall yr oedd yn ymwybodol ohono ac roedd hynny yn Iwerddon. Eglurodd y Swyddog hefyd mai'r bwriad oedd sefydlu'r hwb o fewn y 12–18 mis nesaf. Fodd bynnag, byddai'n rhaid gwario'r cyllid o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin erbyn diwedd mis Mawrth 2025.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, a thrwy Microsoft Forms, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion, y dylid:

1. Nodi'r cynnydd a wnaed o ran darparu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

2. Y 2 drosglwyddiad cyllid arfaethedig mewn perthynas â'r ymyriadau canlynol:

    - W03 Glanach a Gwyrddach – £995,000

    - W24 Hwb Ôl-osod, Coleg y Cymoedd - £1,000,000 i'w gymeradwyo.

3. Swyddogion i ddatblygu cytundeb ariannu gyda Choleg y Cymoedd i helpu trosglwyddo arian grant fel y pennir yn argymhelliad 2 i'w hawdurdodi.

**12. FFOS CAERFFILI – YR WYBODAETH DDIWEDDARAF AR GYLLID SWYDDFA CYLLID EWROPEAIDD CYMRU**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet ar y cyflwyniad i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) am arian tuag at weithredu cynllun marchnad ar ffurf cynwysyddion, Ffos Caerffili, ac i argymell bod cronfeydd craidd y Cyngor a ryddhawyd gan y broses hon yn cael eu hail-fuddsoddi yn Rhaglen Tref Nghaerffili 2035.

Yn dilyn ymholiad ynghylch sut y byddai'r prosiect yn creu cyflogaeth, dywedodd Rheolwr Rhaglen Llunio Lleoedd Caerffili wrth y Cabinet, o ran datganiadau o ddiddordeb yn y

farchnad gan gwmnïau annibynnol lleol i gymryd y lleoedd gwag, a'r gobaith yw creu tua 50 o swyddi ar y safle.

Nodwyd bod negeseuon cadarnhaol wedi dod gan gwmnïau sy'n edrych ymlaen at agor busnes yng nghanol tref Caerffili.

Cofnododd y Cabinet ei ddiolch i'r Swyddogion a fu'n rhan o lwyddiant y prosiect cyffrous hwn a diolch am sicrhau'r cyllid allanol ychwanegol (WEFO).

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, a thrwy Microsoft Forms, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion, y dylid:

1. Cydnabod bod y cyflwyniad i WEFO wedi bod yn llwyddiannus.

2. Bydd hyd at £2 miliwn o gyllid WEFO yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y prosiect, gan gydnabod rhyddhau cyfraniadau craidd cychwynnol gan gyllid adfywio Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Llywodraeth Cymru.

3. Cymeradwyo'r defnydd o elfen y Cyngor a ryddhawyd, a allai fod hyd at £1.1 miliwn, i'w hail-fuddsoddi yn Rhaglen Tref Caerffili 2035.

## 13. ADNODDAU MWSTRO TÎM CAERFFILI – DARPARIAETH

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i drosglwyddo £897 mil o arian cyfalaf wrth gefn a glustnodwyd i'r Gronfa Buddsoddi i Arbed er mwyn darparu cymorth allanol untro parhaus i Raglen Trawsnewid y Cyngor, sef Mwstro Tîm Caerffili.

Yn dilyn ystyriaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo a, drwy Microsoft Forms a phleidlais lafar, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion, y dylid:

1. Cytuno i drosglwyddo £897 mil o arian cyfalaf wrth gefn a glustnodwyd i'r Gronfa Buddsoddi i Arbed i gefnogi Rhaglen Trawsnewid y Cyngor, sef Mwstro Tîm Caerffili.

2. Mae awdurdod dirprwyedig ar ddefnyddio'r Gronfa Buddsoddi i Arbed yn parhau i gael ei roi i'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, yr Aelod Cabinet perthnasol a'r Swyddog Adran 151.

## 14. ADNEWYDDU CERBYDAU CASGLU SBWRIEL ORGANIG Â DAU GABAN

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn i'r Cabinet ystyried cynnig darparu cyllid ar gyfer adnewyddu 9 cerbyd casglu sbwriel organig â dau gaban i ddod â nhw i safon a fydd yn eu gwneud nhw'n weithredol hyd at 2027 ac yn cyd-fynd â gweithredu posibl y Cynllun Gwastraff drafft, sef cynllun sy'n destun ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd.

Gofynnwyd a oedd y Cyngor yn bwriadu ad-drefnu cefn y lorïau o ystyried y cynnydd yn y gwastraff bwyd sy'n cael ei gasglu ac a fyddai'r gwaith adnewyddu yn ein cynorthwyo drwy'r cyfnod interim hyd at ganol 2027. Dywedodd y Pennaeth Isadeiledd nad oedd unrhyw gynlluniau i newid manyleb y cerbydau, ond bod ei staff yn adolygu'r rowndiau ac yn ystyried dull parthol lle byddai cerbydau llif gwastraff penodol i gyd yn gweithredu mewn un ardal o'r Fwrdeistref Sirol ar ddiwrnod a fyddai'n gwella effeithlonrwydd ac yn lleihau amser teithio

gwastraffus.

Gofynnwyd am eglurhad pellach ynghylch a fyddai'r cerbydau mewn cyflwr addas i'w gwerthu ymlaen pan nad oedd eu hangen nhw mwyach a pha mor hir y byddai'r broses adnewyddu yn ei gymryd. Cadarnhaodd y Swyddog y bydden nhw; fodd bynnag, maen nhw'n dibrisio dros amser yn sylweddol ac yn annhebygol o fod yn werth llawer ar ôl 10-11 mlynedd o weithredu. Eglurodd y Swyddog ymhellach y byddai'r broses yn cymryd tua 2 wythnos fesul cerbyd, felly, tua 4-5 mis i gyd.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, a thrwy Microsoft Forms, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion, y dylid:

1. Cymeradwyo'r cais am gyllid o £148,253.84 ar gyfer adnewyddu'r fflyd casglu â dau gaban bresennol am y rhesymau a amlinellwyd yn yr adroddiad.

2. Dylid cytuno i ariannu'r gost o £148,253.84 o'r arian wrth gefn a glustnodwyd.

Terfynwyd y cyfarfod am 14:00.

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mehefin 2024.

_______________________________Cadeirydd_________________________________